



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Garnedd Care Limited**

**Cartref Preswyl Plas Garnedd  
Ffordd Penmynydd  
Llanfairpwllgwyngyll  
LL61 5EX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

17/10/2023

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

[psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

# Plas Garnedd Care Limited

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	PLAS GARNEDD CARE LIMITED
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	05 Rhagfyr 2018
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth.

## Crynodeb

Mae anghenion gofal a chymorth y bobl yn hysbys a chânt eu cofnodi mewn cynlluniau personol cyn y caiff gwasanaeth ei ddarparu. Maent yn cynnwys safbwyntiau'r bobl am yr hyn sydd o bwys iddynt a sut y maent yn dymuno cael eu cefnogi. Darperir gofal gan weithwyr gofal a gaiff eu recriwtio'n ddiogel, sy'n cael hyfforddiant perthnasol ac sy'n cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r bobl yn hoffi'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi, ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â nhw. Caiff y cymorth cywir ei ddarparu, mewn ffordd barchus a gofalgar, sy'n galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau unigol. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ar sut i ymateb i faterion diogelu, ond nid yw'r rhain bob amser yn cael eu hadrodd i'r awdurdodau cywir. Mae trefniadau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd yn ogystal â boddhad y bobl ag ef. Ni chaiff digon o amser ei neilltuo ar gyfer yr amser teithio rhwng ymweliadau ac mae hyn yn effeithio ar alwadau ac ar allu'r gwasanaeth i roi gofal a chymorth i'r bobl pan fydd eu hangen arnynt. Mae hwn yn faes o'r gwasanaeth y mae angen ei wella. Nid oedd gan yr Unigolyn Cyfrifol dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ystod yr arolygiad hwn, fel sy'n ofynnol. Mae hwn yn faes o'r gwasanaeth y mae angen ei wella.

## Llesiant

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r mathau o ofal a chymorth sydd ar gael yn gywir, a sut y caiff y gwasanaethau hyn eu darparu. Mae polisi cwynion ar waith a rhoddir gwybodaeth ysgrifenedig i'r bobl am sut i wneud cwyn. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo y gallant godi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Dywedodd un person wrthym: *"mae nhw'n hawdd i siarad hefo"*. Ar y cyfan, mae'r bobl yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt. Nid yw'r darparwr yn rhoi gwybod i AGC pan mae digwyddiadau penodol wedi digwydd o fewn i'r gwasanaeth, ac mae angen gwella hyn.

Mae gan y bobl gydberthnasau da iawn â'r gweithwyr gofal, ac mae hyn yn cyfrannu at eu llesiant. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth am y gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi. Er enghraifft: *"ffeind", "arbennig o dda", "ryda ni yn dibynnu arna nhw, mae nhw'n dda", "brilliant", "lyfli", "fatha bod nhw nabod chi erioed", "pleasure to have in the house", "hardworking" a "well-trained, efficient, cheerful, chatty"*. Roedd y perthnasau yn canmol y gweithwyr gofal hefyd. Cawsom y sylwadau canlynol ganddynt am y staff: *"excellent, absolutely amazing", "proactive" a "they are friendly, courteous and I have total trust in them" a "gallwn ymddiried ynddynt"*.

Darperir y gofal a'r cymorth cywir oherwydd bod anghenion gofal unigol y bobl yn hysbys ac wedi'u cofnodi mewn cynlluniau personol. Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod pa gymorth sydd ei angen ar bob person a sut i'w ddarparu. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael y gofal a'r cymorth cywir a'u bod yn eu cael yn y ffordd sydd orau ganddynt. Dywedodd un person wrthym: *"I am not treated as someone who is disabled, but as a person needing some support."* Darperir gofal gan staff a gaiff eu hyfforddi a'u cefnogi yn eu rolau, sy'n gwella ansawdd y gofal a gaiff y bobl. Mae'r cyfnod o amser a neilltuir i'r gweithwyr gofal ar gyfer pob ymweliad yn adlewyrchu lefel y cymorth sydd ei angen ar bob person, felly darperir gofal heb orfod rhuthro.

Mae peidio â chael eu gofal a'u cymorth ar yr amser disgwylidig yn effeithio ar ymdeimlad y bobl o reolaeth a gwerth. Nid yw'r amser teithio a neilltuir fel rhan o rotas y gweithwyr gofal i gymudo o un alwad i'r nesaf yn ymarferol. Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu perthnasau a'r gweithwyr gofal wedi nodi bod hyn yn cael effaith negyddol ar brofiad y bobl o dderbyn y gwasanaeth. Mae angen gwella'r maes hwn o'r gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae prosesau ar waith cyn i'r gwasanaeth ddechrau i ystyried a ellir diwallu anghenion y bobl. Caiff gwybodaeth ei chasglu gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r bobl mewn perthynas ag anghenion gofal unigol pob person a sut y gellir eu diwallu yn ddiogel. Cynhelir trafodaethau pellach â'r bobl mewn perthynas â lefel y cymorth sydd ei angen arnynt a sut yr hoffent gael eu gofal. Mae darparwr y gwasanaeth yn bodloni dewisiadau'r bobl cymaint â phosibl.

Mae'r cynlluniau personol yn cofnodi'r cymorth sydd ei angen ar y bobl i ddiwallu eu hanghenion gofal. Mae'r dogfennau gofal yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r bobl ac yn cynnwys gwybodaeth am hanes eu bywyd. Mae hyn yn helpu'r gweithwyr gofal i ddod i adnabod pob person y maent yn ei gefnogi fel unigolyn. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n barhaus a'u diweddarau pan fydd anghenion gofal a chymorth y bobl yn newid. Caiff y bobl a'u perthnasau eu cynnwys mewn adolygiadau, a gwrandewir ar eu barn. Defnyddir asesiadau risg i gofnodi'r risgiau hysbys i ddiogelwch y bobl a sut y caiff y risgiau hyn eu rheoli. Mae hyn yn galluogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Ceir asesiadau a chynlluniau arbenigol gan weithwyr proffesiynol ar gyfer y bobl y mae angen cymorth mwy cymhleth arnynt mewn perthynas â symud a chodi a chario. Mae hyn yn sicrhau bod gan y gweithwyr gofal ganllawiau mwy manwl pan fo angen.

Caiff y bobl y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu canlyniadau dymunol. Ar y cyfan, mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu diwallu gan y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir sy'n eu helpu i reoli eu cyflyrau iechyd ac i fod mor annibynnol â phosibl. Dywedodd y bobl wrthym fod y gofal y maent yn ei gael yn *“excellent”*; *“quality care”*; *“amazing”*; *“proactive”* a *“brilliant”*. Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl wrthym eu bod yn tueddu i gael cymorth gan yr un tîm o weithwyr gofal, sy'n helpu i sicrhau cysondeb. Caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn newis iaith y bobl, boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg, gan fod llawer o'r gweithwyr gofal yn ddwyieithog.

Mae'r systemau cadarn sydd ar waith i ddiogelu'r bobl rhag niwed a chamdriniaeth angen eu gwella. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant mewn perthynas ag arwyddion posibl o gam-drin, ac maent yn deall eu cyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Nid yw'r polisi diogelu yn un cyfoes ac nid yw'r rheolwr bob amser yn cyflwyno adroddiadau diogelu i'r awdurdod lleol pan yn briodol. Golygai hyn nad yw'r awdurdodau diogelu bob amser yn ymwybodol o ddigwyddiadau diogelu sydd wedi digwydd yn y gwasanaeth ac nid ydynt yn ran o drafodaethau ynglŷn a pha ymateb ddylid gymryd. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Caiff arferion rheoli heintiau priodol eu hwyluso. Mae cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar reoli heintiau ac maent yn deall pwysigrwydd dilyn mesurau rheoli heintiau da.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel, a chaiff gwiriadau addas eu cwblhau cyn i weithwyr gofal newydd gael eu cyflogi i weithio yn y gwasanaeth. Maent yn cwblhau cyfnod sefydlu pan fyddant yn dechrau gweithio yn y gwasanaeth, sy'n cynnwys cysgodi aelodau mwy profiadol o'r staff gofal. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt ddilyn y cod ymarfer proffesiynol ar gyfer gofal cymdeithasol wrth ymgymryd â'u rolau. Darperir hyfforddiant perthnasol a sesiynau goruchwyllo un i un ffurfiol. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith ac mae'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Gwnaethant ddweud wrthym: *“excellent company to work for”, “wrth fy modd”, “fair, great training and support”, “good management”* a *“we are a dedicated hard-working team”*. Ar y cyfan, nodwyd bod y tîm rheoli yn *“approachable and helpful”* a *“bob tro yna”*.

Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn adolygu safonau'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys casglu barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom fod yr Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau ffurfiol rheolaidd er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys casglu adborth ar y gwasanaeth a ddarperir. Defnyddir archwiliadau mewnol a hapwiriadau er mwyn monitro'r gwasanaeth y mae'r bobl yn ei gael yn gyson. Mae'r rheolwr yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi yn ei rôl gan yr Unigolyn Cyfrifol er mwyn helpu i redeg y gwasanaeth yn ddiogel. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd gan yr Unigolyn Cyfrifol dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae angen neilltuo mwy o amser i'r gweithwyr gofal deithio rhwng y lleoliadau gwahanol. Dywedodd sawl person wrthym fod y gweithwyr gofal yn aml yn cyrraedd yn hwyr. Dywedodd llawer o'r gweithwyr gofal wrthym nad oedd digon o amser wedi'i neilltuo yn eu hamserlenni ymweliadau i deithio rhwng galwadau. Mae hyn yn golygu na allant gyrraedd yr ymweliad nesaf ar yr amser disgwylidig a neilltuwyd. Mae rotas y gweithwyr gofal yn dangos mai'r amser teithio lleiaf posibl a gaiff ei neilltuo. Nid ydynt yn rhoi unrhyw ystyriaeth realistig i'r pellter rhwng un lleoliad a'r nesaf nac yn ystyried ffactorau eraill a allai effeithio'n rhesymol ar eu hamser teithio. Gwelsom fod y bobl hefyd wedi codi'r mater hwn â darparwr y gwasanaeth wrth ymateb i arolygon sicrhau ansawdd. Dywedodd darparwr y gwasanaeth wrthym fod mwy o alw wedi bod am y gwasanaeth yn ddiweddar a'i fod yn gweithio i ddatrys y mater hwn. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Nid yw'r rheolwyr yn cyflwyno hysbysiadau i AGC yn gyson a phan mae angen. Mae angen i'r darparwr rhoi gwybod i AGC pan mae digwyddiadau penodol wedi digwydd o fewn y gwasanaeth. Gwelsom nad oedd hysbysiadau wedi digwydd pan oedd angen gwneud hynny. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.



### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

## Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
41	Ni chaiff digon o amser teithio bob amser ei neilltuo rhwng galwadau'r gweithwyr gofal ac mae hyn yn golygu bod y gweithwyr gofal yn aml yn cyrraedd cartrefi'r bobl yn hwyrach na'r amser disgwylidig. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod yr amseroedd teithio a neilltuir yn realistig o ystyried y pellter rhwng un lleoliad a'r nesaf, a rhaid iddo hefyd ystyried ffactorau eraill a allai effeithio'n rhesymol ar amser teithio.	Newydd
35	Ar adeg yr arolygiad, nid oedd gan yr Unigolyn Cyfrifol dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod tystysgrif DBS ddilys ganddo, gan fod hyn yn un o ofynion ei rôl yn y gwasanaeth.	Newydd
60	Nid yw'r darparwr gwasanaeth wedi rhoi gwybod i AGC am ddigwyddiadau sydd wedi digwydd yn y gwasanaeth, pan fo angen gwneud hynny. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth fod â threfniadau ar waith i sicrhau bod AGC yn cael gwybod am y digwyddiadau perthnasol pan fyddant yn digwydd.	Newydd
27	Nid yw'r polisi diogelu sydd ar waith yn gyfredol ac nid yw adroddiadau diogelu bob amser yn cael eu gwneud i'r awdurdod lleol pan fo angen. Sicrhau bod y polisi diogelu yn unol â'r cyd-destun deddfwriaethol presennol. Nid yw adroddiadau diogelu bob amser yn cael eu gwneud i'r awdurdod lleol pan fo angen. Sicrhau bod adroddiadau diogelu yn cael eu gwneud i'r awdurdod lleol pan fo hynny'n briodol.	Newydd

## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 01/12/2023**